



Polisi Masnachu ar y Stryd

2022

Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai
Trwyddedu
Blwch Post 1
Conwy LL30 9GN
trwyddedu@conwy.gov.uk
www.conwy.gov.uk/trwyddedu
www.facebook.com/conwylicensing

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
**Gwasanaeth Rheoleiddio a Thai (Gwarchod y
Cyhoedd)**

Enw'r Polisi:

Masnachu ar y Stryd (cyhoeddi trwyddedau/hawlenni masnachu ar y stryd/cymorth i fasnachu)

Awdur/Ceidwad:	John Donnelly
Dyddiad cytuno a gweithredu:	18/01/2021
Cytunwyd gan:	Y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol
Amllder Adolygu:	Adolygiad Blynyddol
Dyddiad adolygu:	(12/09/22)
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'i gwblhau: (dyddiad)	Amh.
Cyfraniad Aelodau (os o gwbl)	Aelod Cabinet / Pwyllgor Trwyddedu
Mewnol neu gyhoeddus:	Mewnol/cyhoeddus

RHEOLI FERSIYNAU:

Cyfeirnod:	Statws:	Awdurdodwyd gan:	Dyddiad:
001	Wedi'i diddymu	John Donnelly	14/01/19
002	Wedi'i diddymu	John Donnelly	14/01/19
003	Yn fyw	John Donnelly	05/02/21
004	Wedi'i diweddarau, Llanrwst	John Donnelly	10/10/23
003	Yn fyw	John Donnelly	10/10/23

SWYDDOGAETH	SWYDDOG
Prosesu cais	Swyddog Trwyddedu
Nacáu cais	Prif Swyddog Trwyddedu/Swyddog Trwyddedu
Atgyfeirio'r cais at y Pwyllgor Trwyddedu	Prif Swyddog Trwyddedu/Swyddog Trwyddedu
Caniatáu/adnewyddu cais	Prif Swyddog Trwyddedu/Swyddog Trwyddedu
Gwrthod cais	Pennaeth Gwasanaeth/Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol

Cynnwys

1	Pwrpas	4
2	Beth yw Masnachu ar y Stryd?	4
5	Natur Nwyddau	6
6	Asesu Safle	6
7	Ceisiadau	7
8	Gorfodi	9
9	Strwythur Ffioedd	9
10	Dirprwyo Swyddogaethau	9
11	Adnewyddu	10
12	Penderfyniadau	10
13	Cyffredinol	10
14	Adolygu'r Polisi	11
15	Cysylltiadau	11
16	Strydoedd Gwaharddedig (dim caniatâd ar gael)	12
	Atodiad A – FFI OEDD	15
	Atodiad B - CAIS AM GANIATÂD MASNACHU AR Y STRYD	16
	Atodiad C - CAIS AM GYMORTHYDD MASNACHU AR Y STRYD	19
	Atodiad D - NODIADAU / RHESTR WIRIO	21

1 Pwrpas

1.1 Mae Polisi Masnachu ar y Stryd y Cyngor yn anelu at greu amgylchedd masnachu ar y stryd sy'n:

- ategu at fasnachu mewn adeiladau.
- darparu amrywiaeth a dewis i brynwyr.
- cefnogi cydlyniant cymunedol a chydaddoldeb.
- gwella cymeriad, naws a diogelwch yr amgylchedd lleol.
- sensitif i anghenion preswylwyr a busnesau.
- yn tynnu sylw at safonau disgwyliedig masnachwyr stryd.
- darparu canllaw i'r rhai sy'n gweinyddu'r gwasanaeth masnachu ar y stryd.

2 Beth yw Masnachu ar y Stryd?

2.1 Pwrpas Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 (y Ddeddf), yw sicrhau y gall Cyngorau reoleiddio'r rhai hynny sy'n gwerthu heb ddefnyddio adeilad busnes arferol yn gywir, ac yn enwedig, fasnachwyr sy'n symud o le i le. Mae'n ymwneud yn bennaf gyda gweithgareddau masnachol, ac eithrio darparu gwasanaethau.

2.2. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi mabwysiadu Atodlen 4 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 ar gyfer Ardal y Fwrdeistref Sirol yn ei chyfanrwydd. Mae'r holl strydoedd yn yr ardal hon wedi'u dynodi fel Stryd â Chaniatâd, ac eithrio'r rhai hynny a ddynodwyd fel Strydoedd Gwaharddedig (Atodiad A) (ac eithrio Cymuned Llysaen). Effaith y dynodiad hwn yw bod masnachu ar unrhyw stryd yn cael ei wahardd gan y gyfraith (yn amodol ar eithriadau cyfreithiol a eraill fel y nodir yn Adran 3 isod), heb gael Cydsyniad Masnachu ar y Stryd (Cydsyniad) yn gyntaf gan y Cyngor.

2.3 Mae masnachu ar y stryd yn golygu 'gwerthu, amlygu neu gynnig unrhyw eitem (yn cynnwys rhywbeth byw) ar werth ar stryd'. Mae 'stryd' yn cynnwys 'unrhyw ffordd, troedffordd, traeth neu unrhyw ardal arall y mae gan aelodau o'r cyhoedd fynediad ati yn rhad ac am ddim'.

2.4 Ni fydd y ffaith fod gan fasnachwr brydles neu drwydded h.y. hawl i feddiannu'r tir, neu fod ganddynt ffurf arall o ganiatâd e.e. caniatâd cynllunio, prydles neu drwydded o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, yn gwrthwneud y gofyniad eu bod angen Caniatâd i Fasnachu ar y Stryd pan fo masnachu gyfystyr â masnachu ar y stryd. Yn yr un modd, ni fydd cael Caniatâd ar gyfer masnachu ar y stryd yn diystyru unrhyw is-ddeddfau neu'n cael gwared ar y rhwymedigaeth i gydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol eraill e.e. cofrestru fel busnes bwyd, nac yn diystyru'r ddyletswydd i gydymffurfio â'r gyfraith gyffredinol e.e. tresmasu (e.e. rhaid cael caniatâd y perchennog tir i feddiannu'r tir a masnachu cyn gwneud cais), priffyrdd, cynllunio, trwyddedu, iechyd a diogelwch, niwsans, gofynion gwaredu gwastraff ac ati.

2.5 Mae unrhyw unigolyn sy'n masnachu ar y stryd heb Gydsyniad dilys yn cyflawni trosedd. Mae'r llysoedd yn datgan nad yw'r diffiniad o 'stryd' yn dibynnu ar yr ardal o dir dan sylw ym mherchnogaeth y cyhoedd, a gellir dosbarthu tir preifat fel 'stryd' hefyd os yw'n bodloni'r diffiniad yn y Ddeddf, a bod union amgylchiadau'r masnachu'n dangos ei fod yn gyfystyr â masnachu ar y stryd (stryd fel y diffinnir yn 2.3).

2.6 Mae'r materion y mae'r Cyngor yn debygol o'u hystyried yn berthnasol wrth benderfynu a yw ardal yn 'stryd', neu fod masnachu ar y stryd, yn cynnwys:

- a yw'r allfa fasnachu wedi'i hadeiladu ar sylfeini cadarn;
- a yw masnachu'n digwydd o fewn adeilad, yn cynnwys ardaloedd lle mae un ochr neu fwy'n agored i'r elfennau
- natur adeiladwaith yr allfa fasnachu e.e. o friciau/blociau
- pa brif gyflenwadau sydd wedi'u cysylltu (os oes rhai)?
- a oes caniatâd cynllunio parhaol wedi'i roi
- a fyddai'n anodd symud yr allfa fasnachu? h.y. a oes angen craen i'w symud ar safle neu oddi ar safle?
- a yw'n mynd a dod ar y safle e.e. a yw'n cael ei symud oddi yno bob dydd?
- a yw'r allfa fasnachu yn symud neu yn gallu cael ei symud i safle(oedd) gwahanol bob dydd?
- pellter o'r briffordd agosaf. Os ydych yn masnachu o fewn 15 metr o stryd, ffordd, maes parcio neu lwybr troed cyhoeddus mae yna ragdybiaeth y byddwch angen caniatâd masnachu ar y stryd, yn amodol ar eithriadau eraill sy'n gymwys. Os ydych yn masnachu o safle sy'n fwy na 15 metr o stryd, ffordd neu faes parcio, cysylltwch â'r Gwasanaeth Trwyddedu i weld a oes angen Caniatâd, gan fod pob achos yn cael ei feirniadu yn ôl ei amgylchiadau ei hun.
- pwrpas/natur wreiddiol yr eitem sydd ar werth e.e. a yw ar gyfer dibenion cwbl ddomestig neu elusennol neu ai gwasanaeth yn hytrach na nwyddau sy'n cael eu gwerthu.

2.7 Ni ellir rhoi caniatâd i fasnach ar unrhyw ffordd ddeuol neu ardal o dan Awdurdod Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru (e.e. yr A55, A470 a'r A5).

2.8 Ni ellir rhoi caniatâd i unrhyw ardal sy'n amodol ar is-ddeddf neu ardal sydd yn destun Gorchymyn Amddiffyn Mannau Agored Masnachu ar y Stryd

3 Eithriadau

3.1 Mae rhai mathau o fasnach yn eithriedig o'r angen i gael caniatâd masnachu ar y stryd.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- unigolyn sy'n masnachu o dan awdurdod Tystysgrif Bedleriaid a roddwyd o dan Ddeddf Bedleriaid 1871 (a roddwyd gan yr Heddlu) ac eithrio ardaloedd sydd yn destun is-ddeddf masnachu ar y stryd/gorchymyn gwarchod manau cyhoeddus neu eiddo preifat.
- masnachu a gynhaliwyd mewn gorsaf betrol trwyddedig
- masnachwr marchnad yn gweithredu mewn lleoliad marchnad a gafodd y statws hwn drwy ganiatâd, ymddeddfiad neu orchymyn.
- nid oes angen Caniatâd ar siopau os ydynt yn gweithredu o fewn eu cwrtill diffiniedig y tu allan i'r adeilad gwirioneddol, ar yr amod bod y masnachu, yn ei hanfod, yn estyniad ar y siop ac ati e.e. lle mae gan siop esgidiau reiliau o esgidiau'n cael eu harddangos y tu allan i'r siop; eto nid yw hyn yn dileu'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth arall, fel y gofyniad am drwydded palmant (sydd ar gael o CBSC), os yw'n briodol:
- masnach a gynhelir gan 'ddosbarthwyr' Mae 'dosbarthwr' wedi'i ddiffinio fel unigolyn sy'n gwneud 'rownd' ar gyfer cwsmeriaid, yn danfon rhag-archebion y cwsmeriaid hynny e.e. dynion llefrith. N.B. Nid yw gweithredwr uned hufen iâ yn ddosbarthwr.
- casgliad elusennol, oni chaiff nwyddau eu gwerthu (ond efallai y bydd angen trwydded gasglu, o dan Ddeddf Elusennau 1992).

4 Caniatâd Masnachu ar y Stryd lle nad oes angen talu ffioedd

4.1 Bydd angen ymgeisio ond ni fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy angen taliadau am ffioedd ar gyfer y gweithgareddau masnachu ar y stryd canlynol:

- Nwyddau o ffermydd gweithredol sy'n cael eu gwerthu yn yr adeilad lle cawsant eu cynhyrchu.
- Gwerthu nwyddau (nid i'w masnachu) gan ddeiliaid tŷ ar dir sy'n agos at eu cartrefi.
- Nwyddau a werthir gan ysgolion neu sy'n cael eu gwerthu yn yr adeilad lle cawsant eu cynhyrchu.

4.2 Nid yw'r uchod yn diystyru'r angen i gydymffurfio â deddfwriaeth arall, fel Rhybudd Digwyddiadau Dros Dro, Trwydded Palmant neu Ganiatâd Cynllunio.

5 Natur Nwyddau

5.1 Ni fyddai'r Cyngor fel arfer yn rhoi Caniatâd i werthu nwyddau sy'n gwrthdaro gyda'r rhai a ddarperir gan siopau neu farchnadoedd gerllaw, lle gall roi mantais economaidd annheg i ddeiliad y Caniatâd.

5.2 Bydd y math o nwyddau y caniateir i'w gwerthu'n cael eu hystyried ar sail fesul safle, gan roi ystyriaeth benodol i anghenion lleol, amrywiaeth y cynnyrch ac arbenigedd e.e. bara artisan, ac addasrwydd y lleoliad arfaethedig o ran gofod a chydbwysedd.

5.3 Gall oriau masnachu ar y stryd adlewyrchu oriau'r siopau neu fusnesau yn yr ardal gyfagos fel arfer, ac eithrio marchnadoedd, digwyddiadau neu fannau bwyd poeth neu gludfwyd (bwydydd stryd), lle bydd oriau masnachu'n cael eu penderfynu ar sail fesul safle.

5.4 Ni fydd y Cyngor yn rhoi caniatâd i werthu:

- cyffuriau neu eitemau ysmegu/ysmygu anwedd,
- catapwlit nad ydyw'n ymwneud â physgota,
- gynau BB, neu arfau o unrhyw fath.
- anifeiliaid (nid yn cynnwys abwyd pysgod) byw neu sy'n perfformio.
- unrhyw eitem a all beri braw, trallod neu dramgwydd (a benderfynir gan y Swyddog dirprwyedig).
- bwyd a diod poeth rhwng 23:00 a 05:00 oni bai bod awdurdod ar gael o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

6 Asesu Safle

6.1 Wrth benderfynu a yw Masnachu ar y Stryd mewn ardal benodol yn addas, bydd y Cyngor yn ystyried:-

- y mynediad diogel ac unrhyw effaith ar ddiogelwch ffyrdd, sydd naill ai'n codi o leoliad y safle, neu gan gwsmeriaid neu staff sy'n ymweld ac yn gadael
- unrhyw achos o golli amwynder oherwydd sŵn, traffig neu arogl
- Gorchmynion Traffig presennol e.e. cyfyngiadau aros
- unrhyw rwystr posibl i gerddwyr neu fynediad i gerbydau
- a oes yna unrhyw Ganiatâd eisoes wedi'i roi i'r safle yn y cyffiniau
- dyluniad ac ymddangosiad yr Uned Fasnachu e.e. stondin, trol, fan neu gert
- cymeriad a naws y safle gofynnol
- defnydd cyffredinol yr ardal

7 Ceisiadau

7.1 Gellir rhoi Caniatâd Masnachu ar y Stryd ar gyfer (ac eithrio strydoedd gwaharddedig a phrifyrdd y cyfeirir atynt yn adran 2.7):

Prif Safle Sefydlog

- Promenâd Bae Colwyn, Promenâd y Gorllewin, Promenâd Rhos, a Marine Drive.
- Llandudno (Penmorfa), *Ile caniateir hynny'n benodol*
- Conwy, Sgwâr Lancaster *Ile caniateir hynny'n benodol*
- Conwy, Lower Gate Street (bandstand) *Ile caniateir hynny'n benodol*
- Conwy, Rosehill Street *Ile caniateir hynny'n benodol*
- Madoc Street, Llandudno

Bydd prif safleoedd sefydlog yn talu ffioedd uwch i adlewyrchu'r ffaith bod masnachu yn y rhan hwnnw o'r Sir yn ddarostyngedig i fwy o ymwelwyr a bod masnachu'n cymryd lle yn bennaf ar y strydoedd yn hytrach nac ar dir preifat, felly nid oes ffioedd ychwanegol am rent tir.

Safleoedd sefydlog a chrwydrol safonol

Pob rhan arall o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae safle safonol yn talu ffi is i gydnabod fod masnachu yn yr ardaloedd hyn yn llai prysur a gallant wynebu costau ychwanegol o'u cymharu â'r prif safleoedd.

Caniatâd ar gyfer digwyddiad arbennig/tymhorol

Uchafswm o ddau ddiwrnod (un safle penodol/masnachwr unigol)

Marchnadoedd masnachol tymhorol neu deithiol dros dro

Uchafswm o dri diwrnod (safle penodol/sawl masnachwr)

7.2 Yn ogystal â'r uchod, bydd angen bodloni'r meini prawf canlynol cyn y rhoddir Caniatâd Masnachu ar y Stryd:

Atal rhwystr neu berygl i ddefnyddwyr y ffyrdd

- I'w leoli yn unol â deddfwriaeth priffyrdd fel y bo'n briodol, fel nad oes unrhyw rwystr yn cael ei achosi i ddefnyddwyr y briffordd neu eiddo cyfagos
- Rhaid i leoliad unrhyw gerbyd/stonidin sicrhau nad yw'n annog plant i groesi unrhyw ffordd heb oruchwyliaeth
- Ni fydd y masnachwr yn lleoli unrhyw ddodrefn neu offer arall ar y stryd neu mewn man cyhoeddus, ar wahân i'r hyn a roddir drwy ganiatâd, a rhaid iddo/iddi gadw'r lle yn lân ac yn daclus, ac nid eu gosod fel eu bod yn rhwystro'r mynediad neu'r allanfa o'r adeilad.
- Y gweithredwr i roi'r gorau i fasnachu, os gofynnir am hynny gan Swyddog yr Awdurdod Priffyrdd neu'r gwasanaethau brys, neu unrhyw Swyddog perthnasol ag Awdurdod yn y Cyngor.

Atal niwsans neu flinder

- Bydd masnachwyr a'u cymorthyddion a gyflogir ganddynt yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu trin yn deg a gyda chwarteisi bob amser.
- Dim cerddoriaeth neu ddarllediadau eraill i'w gwneud o safle'r Caniatâd, ac eithrio gyda chaniatâd yr Awdurdod Trwyddedu,
- Ni all y masnachwr achosi neu ganiatáu bod unrhyw ddifrod yn cael ei achosi i arwyneb y stryd, celfi stryd, goleuadau a thirweddu o fewn yr ardal a ganiateir, a byddant yn gyfrifol am unioni unrhyw ddifrod o'r fath
- Ni allant wneud galwadau diwahoddiad mewn aneddiadau sydd mewn Parth Rheoli Galw Diwahoddiad
- Rhaid i niwsans sŵn beidio â chael ei achosi e.e. gan eneraduron cludadwy, clychau, seinyddion klaxons, ni chaniateir systemau annerch cyhoeddus o dan unrhyw amgylchiadau (oni bai eu bod yn rhan o farchnad fasnachol neu deithiol).

Hylendid/gwastraff/lechyd a Diogelwch

- Rhaid i'r holl staff fod wedi'u hyfforddi'n addas yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelwch Bwyd perthnasol. Rhaid i dystiolaeth o hyfforddiant Hylendid Bwyd fod ar gael i'w harchwilio gan swyddog ag Awdurdod yn y Cyngor, ar unrhyw adeg pan fydd yr uned yn masnachu
- Rhaid i'r busnes gydymffurfio bob amser gyda deddfwriaeth diogelwch a safonau bwyd perthnasol, ynghyd â deddfwriaeth iechyd a diogelwch gymwys
- Rhaid i'r eiddo fod wedi'i gofrestru ar hyn o bryd neu wedi'i Gymeradwyo gan yr Awdurdod Bwyd
- Rhaid i'r adeilad fod â Sgôr Hylendid Bwyd o 5 (Da iawn)
- Rhaid gwneud contract sbwriel, lle mae'n debygol y bydd sbwriel yn cael ei gynhyrchu, neu fod yna drefniadau gwaredu gwastraff cyfreithiol ac addas eraill yn eu lle, yn cynnwys cerbyd gwastraff
- Rhaid darparu niferoedd addas o finiau sbwriel, a chasglu sbwriel yn ôl yr angen, lle mae'n debygol y cynhyrchir sbwriel gan gwsmeriaid.

Cynaliadwyedd

- Yn unol â datganiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar Newid yn yr Hinsawdd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i ymgeiswyr ystyried y canlynol
 - Y defnydd o gerbydau trydan, hybrid neu allyriad isel a chynhyrchiad ynni.
 - Darparu cynnyrch a nwyddau cynaliadwy a lleol.
 - Y defnydd o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu a defnyddiau traul.
 - Dylai holl gynwysyddion bwyd, diod a llestri a roddir i'r cwsmer, allu cael eu compostio, eu hailgylchu neu ddeillio o ffynhonnell cynaliadwy.

Addasrwydd yr ymgeisydd

7.3 Rhaid i bob ymgeisydd yn cynnwys cymorthyddion gyflwyno'r canlynol pan fyddant yn gwneud cais:

- gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sylfaenol, dilys (o fewn 3 mis)
- prawf o hunaniaeth a chyfeiriad (trwydded yrru, bil cyfleustodau, Passcard, Pasbort, cyfriflen banc).
- dogfennau mewnfudo/hawl i weithio yn y DU dilys fel y bo angen

- 1 llun maint pasbort.

7.4 Gellir gwrthod cais os yw'r ymgeisydd yn anaddas i ddal y caniatâd am unrhyw reswm a wneir yn hysbys i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, a fydd yn penderfynu a yw'r ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas.

7.5 Ni ellir rhoi caniatâd i unigolyn o dan 18 oed.

7.6 Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno'r canlynol wrth wneud cais:

- Ffurflen gais wedi'i llenwi
- Prawf o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (£5 miliwn)
- Prawf o gofrestru eiddo bwyd (os yn darparu bwyd)
- Prawf o dalu'r ffi neu ffioedd (sieciau neu daliad cerdyn debyd yn unig)
- Lluniau a neu ddarluniau clir o wisg ddisgwyliedig.
- Rhestr (yn cynnwys enw'r stryd) neu fap o leoliadau arfaethedig i fasnachu
- Tystysgrif diogelwch nwy dilys os ydych chi'n defnyddio Nwy Petrolewm Hylifedig i goginio
- Caniatâd ysgrifenedig/cytundeb prydles gan y perchennog tir (gan gynnwys unrhyw dir sy'n eiddo i, a weithredir gan, neu o dan reolaeth CBSC).

8 Gorfodi

8.1 I gyflawni cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth, caiff yr holl orfodaeth ei chynnal yn unol â deddfwriaeth berthnasol a Pholisi Gorfodi'r gwasanaeth.

8.2 Gall amodau fod ynghlwm â chaniatâd masnachu ar y stryd sy'n manylu cyfrifoldebau'r deilydd i gynnal diogelwch y cyhoedd, osgoi niwsans ac i gadw amwynder yr ardal yn gyffredinol.

8.3 Rhaid i bob masnachwr sicrhau bod caniatâd, trwydded/plât y caniatâd yn cael ei ddangos yn glir i'r cyhoedd ei weld bob amser.

8.4 Rhaid i bob masnachwr a chymhorthydd ddangos eu bathodyn ID masnachwr/cymhorthydd, drwy gydol yr amser maent yn masnachu.

8.5 Bydd methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau'n gallu arwain at ddiidymu'r Caniatâd.

8.6 Mae'n drosedd masnachu ar y stryd heb ganiatâd y Cyngor, a bydd unrhyw unigolyn sy'n cael eu heuogfarnu o drosedd o'r fath yn atebol am ddirwy nad ydyw'n fwy na £1,000. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd gyda thystysgrif a roddwyd o dan Ddeddf Bedleriaid 1871, ond sy'n methu gweithredu yn unol â'r dystysgrif.

9 Strwythur Ffioedd

9.1 Mae Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai wedi dirprwyo awdurdod i bennu ffioedd ac i adolygu'r strwythur ffioedd bob blwyddyn. Mae'r strwythur ffioedd yn Atodiad B.

10 Dirprwyo Swyddogaethau

10.1 Mae ceisiadau ar gyfer Caniatâd yn cael eu dirprwyo i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai. Fodd bynnag, Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol y Cyngor sydd â'r pŵer i ddiwygio dynodiadau Masnachu ar y Stryd, neu i benderfynu ar geisiadau cynhennus.

10.2 Gall Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai:

- Roi Caniatâd ac amgáu amodau o'r fath a ystyrir yn hanfodol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982.
- Lleihau'r ffi sy'n gymwys neu ddiwygio unrhyw amod cyffredinol neu benodol ar gyfer unrhyw gais.
- Cyfeirio unrhyw gais at Bwyllgor Trwyddedu'r Cyngor er mwyn gwneud penderfyniad. Lle cyfeirir cais at y Pwyllgor, penderfynir ynghylch bob cais yn ôl ei rinweddau ei hun. Bydd Aelodau o'r Pwyllgor yn ystyried yr holl wybodaeth sy'n amgaaedig gyda'r cais.
- Gwrthod unrhyw gais am Ganiatâd sydd:
 - I. Ym marn Pennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, ddim yn cydymffurfio ag amodau a pholisïau'r Cyngor.
 - II. Lle mae cais tebyg wedi'i wrthod gan y Pwyllgor yn y 2 flynedd ddiwethaf.
- Gwrthod cais neu wrthod ei adnewyddu am unrhyw reswm rhesymol.

11 Adnewyddu

11.1 Caiff Caniatâd Masnachu ar y Stryd eu cyhoeddi am gyfnod o hyd at flwyddyn o ddyddiad y grant (ac eithrio 11.4).

11.2 Lle bynnag y bo'n ymarferol wrth adnewyddu, rhoddir caniatâd i'r Deilydd caniatâd presennol.

11.3 Rhaid i Ymgeiswyr sy'n dymuno adnewyddu eu Caniatâd ail-gyflwyno eu cais a thalu'r ffi berthnasol o leiaf fis cyn y daw eu Caniatâd cyfredol i ben.

11.4 Bydd ceisiadau am ganiatâd digwyddiad tymhorol/Arbennig a/neu farchnadoedd masnachol tymhorol neu deithiol dros dro yn cael eu rhoi am gyfnod penodol, fel y penderfynir gan Bennaeth y Gwasanaeth Rheoleiddio a Thai, ond ni fydd yn llai nag 1 diwrnod.

11.5 Ni ellir trosglwyddo, gwerthu nag is-gontractio cysyniadau (safleoedd/lleiniau/llwybrau).

12 Penderfyniadau

12.1 Yn dilyn penderfynu ar gais, bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd am y penderfyniad yn ysgrifenedig, cyn gynted â phosib.

12.2 Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniad i wrthod Caniatâd ar y Stryd.

13 Cyffredinol

13.1 Bydd y polisi hwn yn ategu at fentrau eraill gan y Cyngor, ac yn eu llywio, gan gynnwys y rhai hynny ar farchnadoedd stryd a bywyd ym mharth y cyhoedd.

13.2 Bydd y polisi hwn yn llywio'r amodau manwl sy'n amgaaedig gyda phob Caniatâd Masnachu ar y Stryd.

13.3 Bydd y polisi hwn yn cael ei gymhwyso mewn dull sy'n gyson â pholisïau cydraddoldeb y Cyngor.

13.4 Mae dyletswydd ar yr awdurdod i warchod y cyllid cyhoeddus y mae'n ei weinyddu, ac at y diben hwn gall ddefnyddio'r wybodaeth a roddwch chi ar y ffurflen hon i atal a dod i wybod am dwyll. Gall hefyd rannu'r wybodaeth hon gyda chyrrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio neu weinyddu cyllid cyhoeddus.

13.5 Mae'r Awdurdod yn casglu, prosesu ac yn storio rhywfaint o ddata personol er mwyn prosesu eich cais, ewch i www.conwy.gov.uk/cy/Council/Access-to-Information/Privacy-Notices i gael rhagor o wybodaeth.

13.6 Ar bob adeg, bydd pob cais yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau ei hun.

13.7 Rhaid i bob cerbyd, fan, trelar, stondin neu ddyfais arall i'w defnyddio ar gyfer y gweithgaredd masnachu ar y stryd arfaethedig gael ei archwilio gan Swyddog Awdurdodedig cyn i unrhyw fasnachu ddigwydd.

14 Adolygu'r Polisi

14.1 Caiff y Polisi hwn ei adolygu'n flynyddol. Yn ogystal â'r adolygiadau blynyddol, bydd y polisi'n parhau i gael ei werthuso a gellir ei ddiweddarau ar unrhyw adeg. Rhaid cytuno ar unrhyw newidiadau i'r polisi hwn drwy gytundeb y Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol, oni bai bod y swyddogaeth hon wedi'i dirprwyo i swyddog addas.

14.2 Dirprwyir y penderfyniad ar strwythur y ffioedd i Bennaeth y Gwasanaethau Rheoleiddio a Thai, a chaiff ei adolygu'n flynyddol.

14.3 Ni ellir ad-dalu ffioedd a thaliadau cais am gydsyniad Masnachu ar y Stryd.

15 Cysylltiadau

Trwyddedu (Masnachu ar y Stryd)
Blwch Post 1
Conwy
LL30 9GN

E-bost: trwyddedu@conwy.gov.uk

- Ystadau Conwy - estates@conwy.gov.uk
- Harbwr Conwy - harbour@conwy.gov.uk
- Priffyrdd Conwy - streetworks@conwy.gov.uk
- Cynllunio - CynllunioPlanning@conwy.gov.uk

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CONWY

Strydoedd Gwaharddedig a ddaw i rym 01/06/84 (oni nodir yn wahanol)

Cymuned Betws-y-Coed

Ffordd Craiglan
Rhes Dolydd
Pentre Du

Cymuned Conwy

Rose Hill Street (20/11/95) oni bai lle caniateir hynny'n benodol

(A PHOB stryd arall sy'n arwain i'r sgwariau hynny a'r stryd honno am bellter o 50 metr o bwynt y gyffordd â hi, ac eithrio Sgwâr Lancaster.)

Lower Gate Street (Cei Conwy) oni bai'r Bandstand.

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Bandstand (Cei Conwy) oni bai lle caniateir hynny'n benodol.

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Marine Crescent, Deganwy

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Station Road, Deganwy (1/7/88)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Ffordd Maelgwyn, Cyffordd Llandudno (1/7/93)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Cymuned Llandudno

Ffordd yr Abaty

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Augusta Street

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Ffordd yr Abaty

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Augusta Street

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Bryniau Road (o'r Bont Rheilffordd i'r gyffordd â Lloyd Street West)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Chapel Street

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Clarence Road

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Clonmel Street

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Colwyn Road (o The Parade i Bryn y Bia Road)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Conway Road (o Vaughan Street i Maesdu Road)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Dale Road

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Deganwy Avenue

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Gloddaeth Avenue

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Gloddaeth Street

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Great Orme's Road

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Happy Valley Road

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Lloyd Street (o Mostyn Street i St Andrews Avenue/The Oval)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Lloyd Street West (o Bryniau Road i Maesdu Road)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Mostyn Avenue

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Mostyn Broadway

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Mostyn Street

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Nant Y Gamar Road

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

North Parade

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Prince Edward Square

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Queen's Road (o The Parade i Mostyn Avenue)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

St George's Place

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

The Parade (o Happy Valley Road i Colwyn Road)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Trinity Avenue (Ac eithrio - The Trinity Centre)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Trinity Square

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Vaughan Street

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Rhodfa'r Gorllewin (o Marine Drive i Dale Road)

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 45.72 metr (50 llath) o bwynt y gyffordd â hi)

Tudor Road

(A PHOB stryd sy'n arwain i'r stryd y nodir uchod am bellter o 50 metr o bwynt y gyffordd â hi)

Cymuned Llanfairfechan

Station Road

Ffordd y Pentref

This document is also available in English

Strwythur Ffioedd arfaethedig o 01/04/2019

Prif Safle Sefydlog

Caniatâd Sefydlog

Blynyddol	£1425.00
-----------	----------

Safle Safonol (sefydlog neu grwydrol)

Caniatâd Sefydlog

Blynyddol	£990.00
-----------	---------

Caniatâd Crwydrol

Blynyddol	£990.00
-----------	---------

Marchnad fasnachol/deithio - uchafswm o 25 o fasnachwyr unigol

1 Diwrnod (gan gynnwys ID y masnachwr)	£195.00
Dilynol (uchafswm o 3 diwrnod)	£100.00

Digwyddiad arbennig/tymhorol

Fesul diwrnod	£40.00
---------------	--------

Masnachwr / Cymhorthydd/ neu ID newydd	£35.00
--	--------

Caniatâd / Trwydded Newydd (papur)	£25.00
------------------------------------	--------

Masnachwr / Cymhorthydd/ neu ID newydd	£32.00
--	--------

Gwiriad cyn ymgeisio	£35.00 (ni ellir gwarantu y rhoddir caniatâd)
----------------------	---

Cyngor Cyn Cyflwyno Cais	£64.00 1- awr (gan gynnwys Gwiriad cyn ymgeisio)
--------------------------	--

Plât Cerbyd Newydd	£38.00 (yn cynnwys braced)
--------------------	----------------------------

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 – Atodlen 4

CAIS AM GANIATÂD MASNACHU AR Y STRYD

Manylion Personol: Ymgeisydd Rhif 1 (deiliad trwydded)

1	Enw llawn yr ymgeisydd a dyddiad geni			
2	Cyfeiriad cartref yr ymgeisydd (yn cynnwys cod post)			
2	Enw busnes yr ymgeisydd			
4	Cyfeiriad busnes yr ymgeisydd (yn cynnwys cod post)			
5	E-bost			
6	Safleoedd gwe y busnes / cyfryngau cymdeithasol/			
7	Cartref Symudol			
8	Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Dyddiad Cyhoeddi	Cyfeirnod	Cymeradwywyd gan

A ydych yn bwriadu masnachu o?

Brif safle

Stondin Sefydlog

Safle safonol

Stondin Sefydlog Crwydrol

Marchnad fasnachol/deithiol

Stondin Sefydlog

Digwyddiad arbennig/tymhorol

Stondin Sefydlog

9	Safle Masnachu (rhowch enw'r stryd a'r union leoliad)	
10	Enw masnachu a ddangosir ar y safle neu ar gerbyd	(gwch eich bod yn cynnwys lluniau a manylion unrhyw waith celf neu wisg)
11	Diwrnodau masnachu arfaethedig	
12	Amseroedd Masnachu Arfaethedig (fformat 24 awr)	
13	Nwyddau neu Eitemau i'w Gwerthu – nodwch y math, y safon a dull cyflwyno'r nwyddau	
14	Math o gerbyd / stondin / uned	(gwch eich bod yn cynnwys lluniau a manylion unrhyw waith celf neu wisg)
15	Rhif Cofrestru'r Cerbyd	
16	Cerbyd / stondin / uned - uchder	
17	Cerbyd / stondin / uned - lled	
18	Cerbyd / stondin / uned - hyd	
23	Sgôr hylendid bwyd	(sicrhewch eich bod yn cynnwys copi o'r dystysgrif)

A wrthodwyd Trwydded Masnachwyr Stryd neu Ganiatâd i chi gan yr awdurdod lleol hwn neu unrhyw awdurdod lleol arall?

DO/NADDO, Os atebwch do, rhowch ddyddiadau a manylion (rhagor o wybodaeth)

Rwy'n datgan, hyd orau fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr atebion yn wir ac rwy'n sylweddoli y gall gwybodaeth yn y ffurflen gais hon fod ar gael i asiantaethau eraill ag awdurdod.

Os rhoddir Caniatâd, rwyf am gydymffurfio â'r amodau sy'n amgaaedig gyda'r drwydded a roddir, a hefyd am gydymffurfio â Deddf Diogelwch Bwyd 1990, lle bo'n briodol, ac unrhyw Reoliadau a wneir trwy hyn. Rwyf hefyd yn cytuno i ddarparu deilydd gwastraff ar gyfer papurau golchi dwylo ac ati, y byddaf yn cael gwared arno drwy fy nghost fy hun bob dydd.

RWYF YN DEALL, os byddaf yn gwneud datganiad ffug, y byddaf yn euog o drosedd ac yn agored i erlyniad, ac y gallai fy nhrwydded, os caiff ei ganiatáu, gael ei atal neu ei ddiddymu.

Llofnod: _____ Enw mewn llythrennau bras:

Dyddiad: _____

Dulliau Talu:

Gellir talu yn y ffyrdd canlynol:

Siec drwy'r post yn unig (i'w gwneud yn daladwy i "CBS Conwy").

Cerdyn Debyd/Credyd. Ar-lein

Rhagor o wybodaeth

This form is also available in English.

Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1982 – Atodlen 4

CAIS AM GYMHORTHYDD MASNACHU AR Y STRYD

Manylion Personol:

1	Enw llawn a dyddiad geni			
2	Cyfeiriad Cartref (yn cynnwys cod post)			
3	Rhif Ffôn Cartref	<input type="text"/>		
	Rhif Ffôn Symudol	<input type="text"/>		
4	Hawl i Weithio yn y DU	Oes		Nac oes
		<input type="text"/>		
5	Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Dyddiad Cyhoeddi	Cyfeirnod	Cymeradwywyd gan
		<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>

A wrthodwyd Trwydded Masnachwyr Stryd neu Ganiatâd i chi gan yr awdurdod lleol hwn neu unrhyw awdurdod lleol arall?

DO/NADDO, Os atebwch do, rhowch ddyddiadau a manylion (rhagor o wybodaeth)

Rwy'n datgan, hyd orau fy ngwybodaeth a'm cred, bod yr atebion yn wir ac rwy'n sylweddoli y gall gwybodaeth yn y ffurflen gais hon fod ar gael i asiantaethau eraill ag awdurdod.

Os rhoddir Caniatâd, rwyf am gydymffurfio â'r amodau sy'n amgaeedig gyda'r drwydded a roddir, a hefyd am gydymffurfio â Deddf Diogelwch Bwyd 1990, lle bo'n briodol, ac unrhyw Reoliadau a wneir trwy hyn. Rwyf hefyd yn cytuno i ddarparu deilydd gwastraff ar gyfer papurau golchi dwylo ac ati, y byddaf yn cael gwared arno drwy fy nghost fy hun bob dydd.

RWYF YN DEALL, os byddaf yn gwneud datganiad ffug, y byddaf yn euog o drosedd ac yn agored i erlyniad, ac y gallai fy nhrwydded, os caiff ei ganiatáu, gael ei atal neu ei ddiddymu.

Llofnod: _____

Enw mewn llythrennau bras: _____

Dyddiad: _____

Dulliau Talu:

Gellir talu yn y ffyrdd canlynol:

Siec drwy'r post yn unig (i'w gwneud yn daladwy i "CBS Conwy")

Cerdyn Debyd/Credyd, ar-lein

Rhagor o wybodaeth

NODIADAU / RHESTR WIRIO

- Gall mwy nag un unigolyn gael caniatâd, ar yr amod bod yr unigolyn/unigolion gyda diddordeb busnes a'r awdurdod i reoli'r safle masnachu ar y stryd. Unwaith y caiff ei roi, bydd yr holl ddeiliaid caniatâd yr un mor gyfrifol am unrhyw amodau a dorrir o Ganiatâd Masnachwyr ar y Stryd.
- Rhaid i ymgeiswyr fod dros 18 oed.
- Rhaid i bob cymhorthydd lenwi ffurflen gais Cymhorthydd y gellir ei chael gan yr Uned Drwyddedu. Mae bathodynau ID Masnachwr Stryd/Cymhorthydd yn **£32.00** yr un.
- Rhaid rhoi gwybod yn syth am unrhyw fathodyn masnachwr/cymhorthydd a gollir (bydd bathodynau newydd yn costio £32.00 fesul bathodyn).
- Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno ffotograffau o fath pasbort diweddar, mewn lliw, ac sydd yr un peth (heb het neu sbectol haul), gyda'u cais.
- Rhaid i ymgeiswyr ar gyfer marchnadoedd dros dro, teithiol neu dymhorol fod ag un pwynt cyswllt (ymgeisydd) a chynnwys nifer y stondinau a'r mathau o eiddo i'w gwerthu (rhaid cael awdurdod gan drwydded eiddo neu rybudd digwyddiadau dros dro i werthu alcohol).
- **Sicrhewch eich bod wedi darllen a deall y nodiadau canllaw. Cyn i chi gyflwyno eich cais, ticiwch y blychau canlynol er mwyn sicrhau bod gennych chi yr holl ddogfennau angenrheidiol. Caiff eich cais ei ddychwelyd os bydd unrhyw beth wedi ei hepgor ac ni chaiff y ffi ei had-dalu, (mae gwiriad cyn ymgeisio ar gael, cyfeiriwch at atodiad tudalen 14).**

Rhestr Wirio

<i>Ffurflen gais wedi'i chwblhau, wedi'i llofnodi gan yr holl ymgeiswyr a chymorthyddion</i>	
<i>Prawf o dalu'r ffi neu ffioedd (sieciau neu daliad cerdyn debyd yn unig)</i>	
<i>Lluniau a neu ddarluniau clir o wisg ddisgwylidig.</i>	
<i>Rhestr neu fap o bob lleoliad</i>	
<i>Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (dogfen)</i>	
<i>Prawf o hunaniaeth a chyfeiriad</i>	
<i>Prawf o gofrestr hylendid bwyd os ydych chi'n gwerthu bwyd</i>	
<i>Tystysgrif diogelwch nwy os yn defnyddio Nwy Petrolwim Hylifedig</i>	
<i>Tystysgrif Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus (5 miliwn)</i>	
<i>1 llun maint pasbort (fesul ymgeisydd/cymhorthydd)</i>	
<i>Prawf o'ch hawl i weithio yn y DU</i>	
<i>Caniatâd ysgrifenedig/cytundeb prydles gan y perchennog tir</i>	
<i>Adnewyddu: Rhif Caniatâd a Dyddiad Terfyn Caniatâd Gwreiddiol (trwydded)</i>	

Amodau enghreifftiol

Rhaid i'r drwydded/plât gael ei arddangos drwy'r adeg mewn lle y gall y Cyhoedd ei weld.

Rhaid i holl ddeiliaid caniatâd a chymorthyddion arddangos eu dull adnabod awdurdodedig ar eu hunain drwy'r adeg pan fyddant ar yr eiddo trwyddedig.

Ni ddylai unrhyw un, oni bai am ddeiliad y caniatâd, cymorthyddion awdurdodedig a swyddogion awdurdodedig y cyngor, gael mynediad i'r eiddo trwyddedig wrth fasnachu.

Rhaid i finiau priodol fod ar gael bob amser wrth fasnachu, a dylai holl sbwriel gael eu tynnu o'r safle ar ddiwedd pob diwrnod gwaith (mae deiliad y caniatâd yn gyfrifol am y sbwriel cysylltiedig a gynhyrchir o fewn 10 metr o'u safle).

Ni ddylai arwyddion, byrddau, cadeiriau, sillfoedd ategol neu offer gael eu gosod ar briffordd cyhoeddus a neu rwystro unrhyw lwybr troed cyhoeddus, llwybrau dianc neu llwybrau beicio.

Rhaid i generaduron gael eu gwarchod a/neu eu gosod i leihau sŵn a niwsans. Rhaid i generaduron gael eu gosod oddi ar lwybr troed/wyneb caled ar hambwrdd dripio. Mae gollyngiadau yn gyfrifoldeb ar y deiliad caniatâd a rhaid ei lanhau ar unwaith (bydd unrhyw gostau dilynol a ysgwyddir gan y Cyngor yn cael ei godi ar y deiliad caniatâd),

Ni ddylai unrhyw danwydd, oni bai am yr hyn a ddefnyddir ar gyfer coginio, gael ei gadw ar y safle.

Ni ddylai unrhyw gerbydau, gan gynnwys cerbydau tynnu fod ar unrhyw lwybr troed ar unrhyw amser (oni bai am gysylltu/datgysylltu offer tynnu), rhaid i gerbydau tynnu gael eu datgysylltu a chael eu gosod i ffwrdd o'r eiddo trwyddedig.

Ni ddylai cerddoriaeth o seinchwyddwr (oni bai am gerddoriaeth hufen iâ, wrth symud) nac adloniant gymryd lle yn yr eiddo heb ganiatâd priodol yn ei le.

Ni ddylai arwyddion a hysbysebion fod yn ymwithiol a dylai fod yn addas ar gyfer naws y lleoliad.

Lle bo'n ymarferol, dylai holl arwyddion a hysbysebion fodloni Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg, hwyluso defnydd o'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Os yw'r eiddo yn gwerthu bwyd, rhaid i sgoriau hylendid bwyd gael eu harddangos yn glir (os nad oed gan yr eiddo sgôr hylendid ar adeg y cais, rhoddir cyfnod o dri mis, i'r sgôr fel yr amlinellir yn y Polisi Masnachu ar y Stryd gael ei gyflawni, gall fethiant i gyflawni'r sgôr hwn heb esgus rhesymol, arwain at ataliad dros dro neu ddirymu'r caniatâd.

This document is also available in English.